Cynllun y Cyngor 2020 - 2023

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg. Os ydych yn darllen y fersiwn ar lein, defnyddiwch y ddolen "English" ar ochr dde'r bar uchaf. Os ydych yn darllen copi papur, defnyddiwch y manylion cyswllt isod i gael copi o'r fersiwn Saesneg os gwelwch yn dda.

This document is available in English. If you are reading the online version, please use the "English" link on the right hand side of the top bar. If you are reading a paper copy, please use the contact details below to obtain an English version.

Ffurfiau Hygyrch

Bydd y ddogfen hon a'r dogfennau ategol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ffurfiau safonol. Bydd fformatau hygyrch eraill, gan gynnwys: print bras, Braille, DVD Iaith Arwyddion Prydain, fersiwn hawdd ei ddarllen, fersiwn sain, fersiwn electronig a fersiynau mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

Tîm PIPS
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY

Rhif ffôn: 01978 292263

E-bost: telluswhatyouthink@wrexham.gov.uk

DRAFT

Cynllun y Cyngor yw'r dull y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi'i ddefnyddio i gyhoeddi ei Ddatganiad Lles ac i ddiffinio ei Amcanion Lles fel sy'n ofynnol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Dyma sut mae'r cyngor hefyd yn gosod ei Amcanion Gwella ac yn diwallu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 bod y cyngor yn gweithredu 'cynllun gwella' cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol.

Dyma Fwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae oddeutu 136,000 o bobl yn byw ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae hyn yn cynnwys tref Wrecsam, rhai ardaloedd gwledig a rhai cymunedau llai. Yn rhai o'r ardaloedd hyn, mae'r Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn bwysig iawn i bobl.

Yr oedran cyfartalog i bobl sy'n byw yma yw 42 oed, ac mae dros chwarter ohonom yn y grŵp rhwng 45 a 64 oed. Mae ychydig mwy o ddynion na merched ar y cyfan.

Mae 68 ysgol yn ein bwrdeistref sirol, ac mae traean o'r bobl sy'n byw yma yn gweithio yn y sector cyhoeddus (er enghraifft i lywodraeth leol, ysgolion, ysbytai neu feddygfeydd). Mae gweithgynhyrchu hefyd yn bwysig, mae 20% o swyddi yn ein sir yn y categori hwn ac ystâd ddiwydiannol Wrecsam yw un o'r rhai mwyaf yn Ewrop.

Yng nghanol tref Wrecsam, mae llawer o waith yn mynd rhagddo i adfywio'r dref o ran siopau a byw, ac mae'n canolfan gelf a marchnadoedd 'Tŷ Pawb' yn parhau i ddatblygu. Fodd bynnag, mae rhai o'n hardaloedd trefol ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ein gweledigaeth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol

Rydyn ni'n darparu llawer o wasanaethau i chi, p'un a ydych chi'n byw yma, yn gweithio yma neu'n ymweld yn unig, fel: ysgolion, casglu gwastraff, gofal cymdeithasol, tai cyngor, gwasanaethau cynllunio, ffyrdd, amgueddfeydd, parciau gwledig a safonau masnachu.

Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw bod yr holl bobl sy'n byw yma yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial, ffynnu a chyflawni safon uchel o les. Byddwn yn arweinydd cymunedol cryf a chynhwysol i helpu i wneud i hyn ddigwydd.

Yn 2019 fe wnaethom gytuno:

Mewn 10-15 mlynedd, bydd economi'r Fwrdeistref Sirol yn…

- Ffynnu ac yn gydnerth - gyda chymysgedd da o fusnesau newydd a phresennol, mentrau lleol, cwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol;
- Adlewyrchu lleoliad tref Wrecsam fel prif ardal drefol Gogledd Cymru;
- Cynnig ystod o gyfleoedd cyflogaeth, gyda chyflogau uwch a gwell boddhad swydd;
- Yn gymysgedd dda o ddiwydiant traddodiadol gyda'r economi sgiliau a gwybodaeth;
- Gwerthfawrogi pobl hŷn trwy barhau i ddefnyddio eu sgiliau a'u harbenigedd mewn gweithleoedd neu drwy gyfleoedd gwirfoddoli; a
- Gyda chysylltiad da yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol - o ran teithio a chyfathrebu.

Mewn 10-15 mlynedd, bydd pobl y Fwrdeistref Sirol yn…

- Byw yma oherwydd eu bod yn dewis gwneud hynny - ac yn falch o'u diwylliant a'u hunaniaeth;
- Gyda dyheadau uchel ar gyfer addysg ac am fywyd, gyda'r sgiliau, y cyfleoedd a'r offer i'w cyflawni;

DRAFT

- Cefnogi plant a phobl ifanc i gael y lle a'r cyfle i chwarae;
- Gyda chyfle cyfartal waeth beth fo'u hamgylchiadau personol;
- Meddu ar yr offer i wneud dewisiadau bywyd da sy'n eu cadw'n iach ac yn hapus ac yn llai dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus;
- Cynnwys unigolion gwydn sy'n byw mewn cymunedau cryf a gwydn lle nad oes unrhyw un yn teimlo'n ynysig neu'n unig lle mae pobl yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt eu hunain a'u hardaloedd; a
- Teimlo'n ddiogel, waeth beth fo'u cefndir neu eu dewisiadau bywyd.

Mewn 10-15 mlynedd, bydd y Fwrdeistref Sirol yn lle gyda…

- Chefn gwlad a threftadaeth unigryw a hardd sy'n cael ei ystyried yn borth i Ogledd Cymru lle mae pobl eisiau bod ac yn falch o ddweud eu bod yn dod o'r ardal;
- Tref ac ardaloedd cyfagos bywiog, hygyrch a chroesawgar sy'n cynnig ystod o opsiynau manwerthu, hamdden a llety - lle mae ein tirnodau hanesyddol a'n datblygiadau newydd yn gwella ei gilydd;
- Cysylltiadau a seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus da fel y gall pobl gael mynediad hawdd i'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y maent eu heisiau a'u hangen, yn ogystal â gallu teithio i ddinasoedd mawr;
- Tai o ansawdd da i bawb, boed hwy'n dai cymdeithasol neu'n dai rhent preifat;
- Cymunedau gwydn sy'n ffynnu gyda gweithgareddau chwarae, diwylliannol a hamdden ar gyfer pob oedran; a
- Lefelau isel gwirioneddol a chanfyddedig o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Ein Cynllun y Cyngor

Y byddai Cynllun y Cyngor yn amlinellu beth fydd ein blaenoriaethau hyd at fis Mawrth 2023 i'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth a chyfrannu at Nodau Lles Cymru. Dyma'r gwasanaethau y byddwn yn canolbwyntio fwyaf ar eu gwella ac y credwn fydd â'r budd mwyaf i chi os ydym yn eu gwneud yn iawn.

Bydd ein gwasanaethau pwysig eraill yn dal i gael eu darparu ond bydd manylion am y rheini yn cael eu cynnwys yn ein cynlluniau gwasanaeth mewnol. Gallwch chi ddarganfod o hyd am y targedau rydyn ni wedi'u gosod i ni'n hunain yn rhai o'r meysydd allweddol hyn yn yr adran berfformiad sydd wedi'i gynnwys yn nes ymlaen yn y cynllun hwn.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio ar feysydd allweddol sydd yn sail i'n holl waith ar draws y cyngor - meysydd megis gwrthdlodi, cydraddoldeb a'r Gymraeg.

Sut rydym wedi datblygu ein cynllun

Yn ystod 2018 gwnaethom adolygu ein Cynllun y Cyngor a chynnal llawer o ymchwil i nodi pa rai oedd y pethau pwysicaf y dylem ganolbwyntio ar eu gwella yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Arweiniodd hyn ni at chwe blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn fel y disgrifir yng Nghynllun y Cyngor 2019-22.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y blaenoriaethau hyn yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2019 trwy ein tudalen ymgynghori ar-lein Eich Llais Wrecsam, gyda chopïau papur ar gael ar gais. Roedd nifer o bostiadau blog am yr ymgynghoriad, yn

DRAFT

ogystal â rhoi cyhoeddusrwydd iddo trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Hyrwyddodd ‘Wrexham.com’ yr ymgynghoriad trwy stori ar eu gwefan. Dadansoddwyd cyfanswm o 244 o ymatebion ac fe'u hystyriwyd wrth ddatblygu ymhellach y blaenoriaethau a gynhwysir yn y cynllun newydd hwn.

Hefyd, ymgysylltwyd â grwpiau cynrychiadol o'r rhai â nodweddion gwarchodedig (fel y'u diffinnir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb) i ddatblygu'r amcanion cydraddoldeb X ymatebodd grwpiau i'r ymgynghoriad hwn a defnyddiwyd y canlyniadau i lunio'r amcanion.

Cynhaliwyd gweithdai gyda swyddogion ac Aelodau Etholedig i ystyried y blaenoriaethau gan ddefnyddio canfyddiadau'r ymgynghoriad ac ymchwil arall. Ffocws y rhain oedd edrych ar y blaenoriaethau trwy ddefnyddio'r nodau llesiant, amcanion y BGC a'r 'pum ffordd o weithio' i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y pethau iawn ac y bydd y ffordd rydyn ni'n darparu'r gwasanaethau hyn yn golygu eu bod nhw yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Fe wnaeth yr holl waith hwn ein helpu i ddatblygu chwe maes y credwn yw'r pethau iawn i ganolbwyntio arnynt a'u blaenoriaethu tan fis Mawrth 2023.

Ein cyllid

Telir am y gwasanaethau a ddarparwn yn bennaf gan grantiau oddi wrth Lywodraeth Cymru (£175 miliwn yn 2019/20) gyda'r chwarter sy'n weddill o'n cyllid (£62 miliwn yn 2019/20) yn dod o Dreth y Cyngor. Yn y deng mlynedd hyd at 2018 rydym wedi cael ein cyllideb wedi'i thorri dros £62 miliwn. O ganlyniad rydym wedi gwneud newidiadau enfawr i'r ffordd yr ydym yn gweithio, wedi dod yn fwy effeithlon, wedi lleihau ein gweithlu o 600 o weithwyr ac wedi gwneud toriadau na ellir eu hosgoi i wasanaethau, gan geisio lle bynnag y bo hynny'n bosibl, i leihau'r effaith ar ein defnyddwyr gwasanaeth.

Mae effaith barhaus cyni yn debygol o barhau am yr ychydig flynyddoedd nesaf, sy'n golygu bod angen i ni flaenoriaethu'n ofalus sut rydyn ni'n gwario ein harian. Cytunir ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (sy'n nodi ein dull o reoli ein cyllid yn ogystal â'r materion eang a fydd yn effeithio ar ein sefyllfa ariannol dros y tymor canolig) yn y Cyngor bob blwyddyn ac mae'n cael ei ddiweddaru yn ystod y flwyddyn yn ôl yr angen.

Ein Cenedlaethau’r Dyfodol

Mae angen i ni barhau i feddwl yn wahanol am sut rydyn ni'n darparu ein gwasanaethau a sicrhau nad yw'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud nawr yn gwneud pethau'n waeth i'n cenedlaethau i ddod.

Deddf sy'n ceisio gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yw Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac mae'n nodi saith nod llesiant i Gymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus (fel y cyngor, yr heddlu, gwasanaethau iechyd, tân a'r sector gwirfoddol) weithio gyda'i gilydd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i osod amcanion ar gyfer gwella lles yr ardal leol. Rhaid i'r blaenoriaethau a osodwyd gennym fel cyngor hefyd helpu i gyflawni'r nodau llesiant hyn ar gyfer Cymru a'r rhai a osodwyd gan BGC Wrecsam.

DRAFT

Mae ein cynllun yn dangos sut y bydd pob blaenoriaeth yn cyfrannau at gyflawni nodau lles Cymru ac amcanion lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ein blaenoriaethau

Mae'r adran nesaf yn amlinellu ein chwe blaenoriaeth, pam eu bod yn bwysig i ni, beth fyddwn ni'n canolbwyntio arnynt, beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant, sut y byddwn ni'n mesur ein cynnydd a sut mae ein hamcanion cydraddoldeb yn cysylltu â'n blaenoriaethau.

DRAFFT

Datblygu'r Economi

Mae'r economi y n brif gymhelliant ar gyfer gwella'r gymuned yn Wrecsam ac mae'n cyd-fynd yn agos gydag amcanion lles Cymru.

Rydym yn uchelgeisiol – rydym yn anelu i gael ein cydnabod fel canolbwynt diwydiant a masnach yng Ngogledd Cymru ac yn arweinydd y byd mewn sectorau uwch-weithgynhyrchu, ynni a digidol. Rydym yn dymuno denu swyddi gyda chyflogau gwell i'r ardal a helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau tâl, gwneud cyfraniadau hanfodol i les pobl a chymunedau a chyfrannu at Gymru mwy gwydn, ffyniannus a cyfartal.

Ar lefel ranbarthol, byddwn yn cydweithio fel Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, byddwn yn gweithio i fwyhau'r Fargen Dwf a gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau buddsoddiad yn Wrecsam ac ar draws y rhanbarth i ddylanwadu a chreu'r amodau ar gyfer twf busnes; yn lleol byddwn yn hybu entrepreneuriaeth lleol i greu cyflogaeth a chyfoeth.

Yn allweddol ar gyfer hyn mae ein systemau cefnogaeth a seilwaith o amgylch ein heconomi – gan sicrhau bod seilwaith cyfathrebu digidol, rheilffyrdd a ffyrdd yn diwallu anghenion ein heconomi.

Mae Wrecsam mewn sefyllfa unigryw ac rydym yn dymuno adeiladu ar ein llwyddiant i godi ei broffil fel lleoliad cyrchfan. Byddwn yn uwchgynllunio adfywio canol y dref, moderneiddio ac amrywio'r meysydd manwerthu gyda chymysgedd o fanwerthu, preswyl ac adloniant, yn ogystal â gweld budd cymunedol o'n cyfleusterau chwaraeon, diwylliannol a hamdden a rhaglenni digwyddiadau. Mae hyn yn allweddol i godi ein proffil fel lle i fyw, ymweld, gweithio a buddsoddi ynddo a – chefnogi nod llesiant o fod yn ddiwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.

Ein ffocws ar gyfer 2020-23

Bargen Twf Gogledd Cymru

- Fel aelod o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, gweithio gyda phartneriaid i gwblhau achos busnes manwl ar gyfer pob prosiect / rhaglen unigol a gymeradwywyd fel rhan o'r Cynnig Twf er mwyn sicrhau cyllid.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu prosiectau/ rhaglenni ar gyfer adeiladu isadeiledd digidol, tir ac eiddo, gwelliannau ynni a chyfleusterau Ymchwil a Datblygiad ar draws Gogledd Cymru.

Creu prif gynllun ar gyfer canol tref lai gyda chymysgedd o adwerthu, preswyl ac adloniant

- Cefnogi creu Ardal Gwella Busnes o fewn Wrecsam
- Gweithredu Menter Adnewyddu Canol Tref wedi'i dargedu i wella deiliadaeth ac ail-bwrpasu eiddo gwag i gefnogi craidd newydd o ansawdd uchel i Ganol y Dref, gan gynnwys cyflawni Cynllun Treftadaeth Treflun a phrosiect Tai Uwchben Eiddo Manwerthu.
- Datblygu prosiect Seilwaith Gwyrdd i wella amgylchedd gorfforol yng ngwraidd canol y dref, gan ategu ymddangosiad y Chwarter Farchnad.

DRAFT

Gwneud y mwyaf o effaith economaidd pêl-droed ar y Fwrdeistref Sirol

- Ymgynghori a dechrau cyflawni Uwchgynllun Porth Wrecsam mewn partneriaeth â Chlwb Pêl-droed Wrecsam, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Llywodraeth Cymru, ynghyd â Thrafnidiaeth Cymru, i ddarparu cynllun adfywio defnydd cymysg mawr sydd wedi'i ganoli o amgylch y Cae Ras a'r Orsaf Gyffredinol.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i symud datblygiad Amgueddfa Bêl-droed yn Wrecsam ymlaen.

Hyrwyddo entrepreneuriaeth leol

- Datblygu Cronfa Fenthyg Entrepreneuraidd ac Arloesi.
- Darparu Prosiect Mynediad Digidol newydd a buddsoddi £160k mewn isadeiledd digidol newydd yn y cymunedau a fydd yn gwella cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau entrepreneuraidd.
- Cyhoeddi Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer datblygiad twristiaeth yn Wrecsam.

Sicrhau bod isadeiledd ffyrdd a rheilffyrdd yn bodloni anghenion ein heconomi

- Rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i sicrhau gwelliannau i gefnffordd A483
- Rhoi pwysau ar Drafnidiaeth Cymru i sicrhau gwelliannau i gyfleusterau a gwasanaethau drwy orsafoedd rheilffordd Wrecsam.

Beth sy'n cael ei ystyried yn llwyddiant

- Bydd amseroedd teithio gwell i mewn i Wrecsam ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd
- Byddwn wedi cyflawni twf mewn cyflogaeth gyda chynnydd yn y cyflenwad o swyddi sy'n talu'n well.
- Mae gan Wrecsam y cynhwysedd a chadernid i gynnal mwy o ddigwyddiadau cynhwysedd uwch yn adeiladau'r Cae Ras, gyda'r gallu i gludo nifer uwch o bobl i mewn ac allan o Wrecsam yn haws/ gynt.
- Cynnydd yng nghydnabyddiaeth bod Wrecsam yn lleoliad arwyddocaol i ymwelwyr yng Ngogledd Cymru a'r rhanbarth Mersi a'r Ddyfrdwy ehangach ar gyfer ein treftadaeth pêl-droed.
- Niferoedd uchel amlwg o ymwelwyr i'r Bwrdeistref Sirol
- Twf mewn busnesau bach yng nghynhyrchiad bwyd/ datblygu cynnyrch newydd, hefyd sector economi rhad-ar-garbon.
- Twf mewn gweithgaredd entrepreneuraidd a busnesau bach yn gweithredu o ganol tref Wrecsam
- Lleihad yn y nifer o eiddo gwag yng nghanol y dref.
- Ardaloedd yn Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam yn cael ei hailddatblygu ar ôl cwblhau CDLL.

Nodau Lles Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Cymru gydnerth
- Cymru lewyrchus
- Cymru gyfartal
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

DRAFT

Sicrhau Cyngor modern a chryf

Mae’r Cyngor yn wynebu’r broblem o orfod gwneud mwy gyda llai. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem, mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn fwy modern a chryf. Byddwn yn cyflawni hyn drwy ddarparu’r ‘rhaglen ffyrdd modern o weithio’ a fydd yn trawsnewid ein harferion gwaith drwy ddarparu amgylcheddau gwaith gwell, mabwysiadu technoleg ac atebion digidol newydd, gwneud ein gwaith yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir a herio’r problemau diwylliannol mewn perthynas â’r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio.

Bydd datblygu a darparu strategaeth TG a Digidol newydd yn amlinellu sut y byddwn yn defnyddio pŵer technoleg ddigidol i drawsnewid y ffordd mae'r Cyngor yn gweithio a'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu ac yn cefnogi ein cymunedau ac yn darparu ein gwasanaethau. Byddwn yn parhau i weithio er mwyn sicrhau bod ein hisadeiledd TG yn ddiogel, yn gryf ac â'r gallu i gefnogi'r cyngor i ddarparu ei flaenoriaethau i'r dyfodol.

Byddwn yn cyflawni’r blaenoriaethau sydd wedi’u hamlinellu o fewn ein strategaeth datblygu sefydliadol a’r gweithlu er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu diwylliant sefydliadol lle mae gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, eu gwerthfawrogi a'u hysbrydoli, a bod ganddynt y sgiliau cywir i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau effeithiol.

Er mwyn sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn parhau i ffynnu o fewn Wrecsam, mae'n hollbwysig fod y Cyngor yn parhau i gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg.

Mae’r flaenoriaeth hon yn drawsbynciol ac yn helpu’r Cyngor i ddarparu gwelliannau ar draws ei flaenoriaethau a’i wasanaethau, a fydd yn cyfrannu at saith nod lles Cymru - ond yn fwy penodol, bydd yn cynnig cefnogaeth uniongyrchol i sicrhau fod Cymru yn wlad gref, sydd â chyfrifoldeb byd-eang, diwylliant bywiog ac iaith sy’n ffynnu.

Ein ffocws ar gyfer 2020-23

- Cyflawni’r amcanion ein rhaglen ffyrdd modern o weithio
- Adolygu ein gofynion gofod swyddfa, sicrhau bod ein hasedau yn ateb y gofyn a darparu gofod swyddfa modern a hyblyg sydd yn bodloni gofynion sefydliad modern.
- Datblygu strategaeth TGCh a Digidol newydd a fydd yn ein galluogi i foderneiddio’r ffordd yr ydym yn gweithio ac ymgysylltu â’n cwsmeriaid.
- Sicrhau bod gwasanaethau allweddol yn gynaliadwy a bod ein hadnoddau wedi'u halinio â'n blaenoriaethau.
- Cyflenwi datblygu sefydliadol a blaenoriaethau strategol y gweithlu.
- Arwain, a sicrhau datblygiad yr iaith Gymraeg yn ein sefydliad.
- Buddsoddi yn ein hisadeiledd TGCh a chwblhau cyflenwi canolfan ddata newydd a safleoedd adfer mewn trychineb.

Beth sy’n cael ei ystyried yn llwyddiant

- Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu ffyrdd modern o weithio, gydag amgylchedd weithio gwell, a gwell ddefnydd o dechnoleg a datrysiadau digidol ac wedi gwneud ein gwaith yn fwy cynaliadwy drwy leihau ein hôl troed carbon.

- Mae’r Cyngor wedi lleihau ei asedau gofod swyddfa yng nghanol y dref ac wedi trawsnewid yr asedau sydd ar ôl i amgylchedd gwaith modern a hyblyg.
- Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu’n llwyddiannus y strategaeth Digidol a TGCh newydd ac wedi cyflawni amcanion y strategaeth.
- Mae’r Cyngor yn cydymffurfio’n llwyr â’i ddyletswyddau o ran Safonau’r Iaith Gymraeg.
- Mae’r Cyngor wedi cydbwyso’r gyllideb o un flwyddyn i'r llall heb effeithio ar wydnwch ein gwasanaethau allweddol
- Bydd gan y Cyngor isadeiledd TGCh a chynhwysedd i gefnogi arloesi a newid.

Nodau Lles Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

- Cymru iachach
- Cymru gyfartal
- Cymru gydnerth
- Cymru lewyrchus
- Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu

DRAFT

Sicrhau bod pawb yn ddiogel

Mae bod a theimlo’n ddiogel ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn hanfodol i’n trigolion a’n hymwelwyr, ac mae’n ffactor allweddol sy'n cael effaith ar ansawdd bywydau pobl a'u gallu i ymgysylltu â bywyd yn y gymuned.

Er y gwyddom fod y mwyafrif helaeth o bobl yn Wrecsam yn ddiogel rhag niwed ac yn teimlo’n ddiogel, mae’n un o’n dyletswyddau pwysig i ddiogelu’r rheiny sydd o bosibl yn ddiamddiffyn, i atal niwed a chreu amgylchedd lle mae pawb yn teimlo’n ddiogel.

Bydd llawer o’r gwaith hwn yn canolbwyntio ar ein strategaeth diogelu corfforaethol, sy'n amlinellu sut y byddwn yn bodloni ein dyletswyddau i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed.

Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau fod pobl, yn arbennig y bobl sydd fwyaf diamddiffyn, â mynediad at y tai cywir, p’un a yw hynny’n golygu tai cyngor, cymdeithasol neu dai'r sector rhentu preifat.

Byddwn yn parhau i gydweithio â’n partneriaid, yn arbennig y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, i fynd i'r afael â throsedd ac anrhefn ac i sicrhau yr ymdrinnir â phroblemau diogelwch cymunedol lleol.

Mae’r flaenoriaeth hon yn cyfrannu'n uniongyrchol at nodau lles Cymru, yn arbennig Cymru gydnerth a Chymru â chymunedau cydlynol, a bydd creu amodau sy’n cefnogi pobl i ffynnu a gwireddu eu potensial beth bynnag fo’u cefndir neu amgylchiadau yn helpu i greu Cymru fwy cyfartal.

Yr hyn y byddwn yn canolbwyntio arno yn 2020-23

Gwella diogelwch cymunedol

- Gweithio gyda phartneriaid i weithredu’r Strategaeth Diogelwch Cymunedol, gan ganolbwyntio ar leihau'r niwed a achosir gan alcohol, amddiffyn y rhai mwyaf diamddiffyn a gwneud i bobl deimlo’n fwy diogel.
- Cefnogi pobl ddiamddiffyn i’w hatal rhag dod yn ddioddefwyr trosedd a dioddefwyr trosedd fwy nag unwaith
- Datblygu ein harfer diogelu i ymateb i bolisïau a gweithdrefnau cenedlaethol newydd
- Rhoi ein strategaeth gweithredu ar ddiogelu corfforaethol ar waith i gynyddu ymwybyddiaeth ynglŷn â dioddefwyr ecsbloetiaeth fel Llinellau Sirol a Chaethwasiaeth Fodern

Lleihau digartrefedd

- Cyflawni ein Strategaeth Cysgu Allan a gweithredu argymhellion Adroddiad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd.
- Cefnogi cynaliadwyedd tenantiaethau a lleihau’r risg o droi pobl allan drwy lansio Gwasanaeth Cynhwysiant Ariannol newydd, datblygu ‘cefnogaeth cyn tenantiaeth’ drwy ‘Hyfforddiant Barod i Rentu’ ac ehangu'r Asiantaeth Gosod Tai Lleol i gynyddu’r dewisiadau sydd ar gael o ran tai i’r rhai sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref.

DRAFT

- Gweithredu’r Grant Cymorth Tai newydd sy’n cyfuno grantiau a ddarparwyd yn flaenorol o dan Gefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a Rhentu Doeth Cymru.

Buddsoddi mewn safonau a gwasanaethau tai

- Cynyddu ein stoc dai gyda’n cynlluniau tai newydd ym Mhlas Madoc a Nant Silyn
- Gwella safon ein stoc dai drwy gwblhau Safon Ansawdd Tai Cymru ac adnewyddu eiddo gwag i’n Safon Gosod Tai Lleol
- Gwella effeithlonrwydd ac ymatebolrwydd ein Swyddfeydd Ystadau gan sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg a dulliau modern o weithio
- Datblygu’r cyflenwad ac ansawdd ein tai gwarchod, gan weithredu’r hyn a ddysgwyd o Raglen Ailfodelu Plas Madoc mewn ardaloedd tai eraill a mynd ymlaen gyda'n Rhaglen Adnewyddu Tai Gwarchod

Gwella safonau tai’r sector preifat

- Cefnogi landlordiaid preifat i wella ansawdd a chynaliadwyedd llety drwy gymryd camau gorfodi cynllunio a thrwyddedu yn erbyn eiddo preswyl a gaiff eu rheoli neu eu cynnal yn wael neu eiddo gwag yng nghanol y dref a gweithio mewn partneriaeth gyda Rhentu Doeth Cymru i sicrhau fod landlordiaid ac asiantaethau gosod tai yn cydymffurfio gyda’u Cod Ymarfer.
- Diffinio manyleb y Cyngor ar gyfer mathau o dai di garbon/carbon isel ar gyfer cynlluniau’r dyfodol

Sut beth yw llwyddiant

- Llai o bobl yn cael eu niweidio gan drosedd neu yn ddioddefwyr trosedd a bydd pobl yn fwy diogel ac yn teimlo'n fwy diogel
- Mae mabwysiadu'r Datganiad Tryloywder Caethwasiaeth Fodern wedi golygu gweithio gyda phartneriaid i gyflawni camau gweithredu o hunan asesiad PREVENT y Swyddfa Gartref ac wedi darparu hyfforddiant Haen 2 mewn Caethwasiaeth Fodern i’r holl staff priodol.
- Gweithredu ‘Operation Repeat’ i ddiogelu pobl hŷn a phreswylwyr diamddiffyn rhag camdriniaeth ariannol a throsedd ar garreg y drws.
- Mae llai o bobl yn cysgu allan ac yn profi digartrefedd a mwy o bobl yn cael eu cefnogi i gynnal eu tenantiaethau
- Mae cynlluniau tai newydd yn Nant Silyn a Phlas Madoc a mwy o’n stoc dai yn bodloni gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru
- TG newydd yn Swyddfa’r Ystâd a gweithio hyblyg i ddarparu gwasanaeth mwy ymatebol ac effeithlon
- Cwblhau Cam 2 (Symud) y Rhaglen Adnewyddu Tai Gwarchod
- Mwy o landlordiaid preifat / asiantaethau gosod tai yn cydymffurfio gyda Chod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru

Nodau Lles Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru gydnerth
- Cymru gyfartal

DRAFT

Gwella addysg uwchradd

Dros nifer o flynyddoedd, yn y mwyafrif o ysgolion uwchradd, mae deilliannau addysg disgyblion wedi bod yn is na'u cymheiriaid yn genedlaethol. Yn ogystal, dros gyfnod o amser, nid yw dyfarniadau arolygiad mewn ysgolion uwchradd yn Wrecsam yn cymharu'n dda gyda rhai mewn ysgolion uwchradd ar draws Cymru ac mae gormod o ysgolion uwchradd wedi eu rhoi mewn categori "camau dilynol" Estyn gan gynnwys "Gwelliant Sylweddol" a "Mesurau Arbennig".

Cafodd Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol yn Wrecsam eu harolygu gan Estyn ym mis Hydref 2019 gyda'r canlyniad:

"Mae goblygiadau deilliannau gwan mewn ysgolion uwchradd yn Wrecsam yn sylweddol i les pobl ifanc a'u haddysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y dyfodol. Mae cefnogaeth ac ymyrraeth aneffeithiol dros nifer o flynyddoedd wedi arwain at welliant cyfyngedig yn unig mewn llawer o ysgolion uwchradd. Mae graddfa'r her i wella deilliannau mewn ysgolion uwchradd yn golygu bod Wrecsam yn awdurdod sy'n achosi pryder sylweddol."

Yn ystod y cyfnod 2020-23, y flaenoriaeth fydd gwella deilliannau ysgol uwchradd a mynd i'r afael ag argymhellion arolygiad Estyn.

Mae'r flaenoriaeth hon yn cefnogi llawer o amcanion lles Cymru yn uniongyrchol – cefnogi ein dysgwyr a chreu'r amodau cywir ar gyfer gweithlu medrus wedi'i addysgu'n dda, gallu cyflawni eu potensial waeth beth fo eu cefndir neu amgylchiadau, yn cefnogi Cymru mwy cyfartal, ffyniannus, gwydn ac iachach, gyda diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.

Ein ffocws ar gyfer 2020-23

Drafftio a gweithredu Cynllun Gweithredu Ar ôl Archwiliad a fydd yn mynd i'r afael â'r pedwar argymhelliad isod o adroddiad arolygu Estyn:

R1 – Gwella canlyniadau i ddysgwyr ar frys, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4.
R2 – Gwella presenoldeb, lles ac ymddygiad disgyblion ysgol uwchradd
R3 – Cryfhau cydweithio ar draws y meysydd gwasanaeth sy'n berthnasol i bob agwedd o les
R4 - Gwella ansawdd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ar draws holl wasanaethau addysg.

Beth sy'n cael ei ystyried yn llwyddiant

Drwy weithredu'r Cynllun Gweithredu Ar ôl Archwiliad, byddem yn disgwyl:

- Canlyniadau mewn ysgolion uwchradd unigol wedi gwella'n sylweddol yn erbyn disgwyliadau wedi'u modelu, fel y mesurir gan Ddangosydd Canlyniadau 9 (neu unrhyw ddangosydd wedi'i haddasu gan Lywodraeth Cymru)
- Bydd presenoldeb mewn ysgolion uwchradd unigol yn gwella ac i'w gymharu'n dda ochr yn ochr ag ysgolion tebyg ar draws Cymru.
- Bydd lleihad yng ngwaharddiadau parhaol a thymor penodol.

DRAFT

Nodau Lles Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

- Cymru iachach
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru gyfartal
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu

DRAFFT

Gwella'r Amgylchedd

Mae’r Argyfwng Hinsawdd yn un o bynciau pwysicaf ein cyfnod ac yn un y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael ag o yn gyflym. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan Argyfwng Hinsawdd yng Nghymru ac wedi gosod cynlluniau uchelgeisiol i’r sector cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam chwarae ei ran o fewn Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Rydym eisoes wedi gweithio ar nifer o fentrau lleihau carbon dros y degawd diwethaf, sydd wedi sefydlu ein henw da fel arweinydd o ran darparu mentrau arbed carbon. Yn 2019 fe wnaethom ddatgan Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ac fe sefydlwyd Bwrdd Prosiect Carbon – tasg y Bwrdd yw datblygu Cynllun Datgarboneiddio i dargedu datgarboneiddio swyddogaethau’r Cyngor a hyrwyddo’r broses o warchod a gwneud y mwyaf o'n hamgylchedd naturiol.

Rydym yn wynebu’r broblem barhaus o wneud mwy gyda llai – bydd angen i ni wella gwytnwch ac effeithlonrwydd ein gweithlu a'n gwasanaethau drwy sicrhau ein bod yn gwireddu'r potensial a gynigir gan dechnoleg fodern, gwasanaethau digidol a rhaglen y cyngor o ‘ffyrdd modern o weithio’. Bydd hyn o gymorth i ni wella ein gwaith cynllunio at y dyfodol, symud o fuddsoddi ymatebol i fuddsoddi a gynlluniwyd, a sicrhau bod ein gwasanaethau amgylcheddol yn gynaliadwy yn yr hir dymor.

Bydd ein gwaith yn cyfrannu’n uniongyrchol tuag at greu Cymru fwy cyfartal a ffyniannus, a Chymru â chymunedau cydlynol – gan sicrhau bod ein trefi a’n pentrefi yn lân ac yn atyniadol, gyda phriffyrdd sydd mewn cyflwr da ac isadeiledd cludiant sy’n cefnogi cysylltiadau rhwng cymunedau a datblygu ein heconomi. Byddwn yn symud ymlaen gyda'n menter Teithio Llesol fydd yn ein helpu i gyflawni yn erbyn yr amcanion lles

Mae angen i ni sicrhau ein bod yn rheoli ein gwastraff a byddwn yn parhau i gynnwys aelwydydd yn y broses o weithio gyda ni i fodloni ein targed ailgylchu o 70% erbyn 2025 a byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein cynlluniau adnewyddu er mwyn lleihau ein gofynion ynni.

Ein canolbwynt ar gyfer 2020-23

- Gweithio gyda rhaglenni ‘Ffyrdd Modern o Weithio’ y Cyngor i fabwysiadau technoleg newydd a datrysiadau digidol er mwyn gwella ymatebolrwydd, effeithlonrwydd a gwydnwch ein gwasanaethau amgylcheddol.
- Bydd ein Bwrdd Prosiect Carbon yn datblygu Cynllun Datgarboneiddio gan fynd i’r afael â materion sy’n ymwneud â’n hadeiladau, defnydd tir, caffael a symudedd, gwastraff a chludiant sydd yn bodloni gofynion Canllawiau Llywodraeth Cymru.
- Gweithio gyda phartneriaid i ystyried sut rydym ni’n mynd i’r afael â newid hinsawdd, problemau llygredd, llifogydd a bioamrywiaeth er mwyn gwella ein cadernid a chynaliadwyedd hir dymor ein gwasanaethau.
- Bod yn rhagweithiol wrth leihau a chael gwared ar sbwriel a thipio anghyfreithlon ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Cynnal a datblygu ein canolbwynt ar ymwybyddiaeth ailgylchu a rhaglenni addysg gydag aelwydydd ac ysgolion ar draws y Fwrdeistref Sirol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fodloni ein targedau statudol i ailgylchu a lleihau gwastraff.

DRAFT

- Adolygu a buddsoddi yn ein gwasanaethau casglu gwastraff er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaeth effeithlon i fodloni'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol.
- Datblygu Polisi Archwilio Diogelwch Priffyrdd newydd a gwella'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i drefnu er mwyn gwella cyflwr ein ffyrdd.
- Cyflwyno ein Cynllun Teithio Llesol – llwybrau cerdded a beicio yn cysylltu cymunedau gyda chyfleusterau cyflogaeth ac addysg allweddol.

Sut mae llwyddiant yn edrych

- Mae technoleg, gwasanaethau digidol a ffyrdd modern o weithio wedi'u sefydlu yn ein gwasanaethau ac yn ein cefnogi i fodloni ein safonau gwasanaeth.
- Gwasanaethau gwydn, effeithlon a chynaliadwy, gyda mwy o waith a gynlluniwyd, dulliau cynaliadwy o weithio, gyda gwasanaethau sy'n gwneud defnydd da o dechnoleg ac yn cynnig gwasanaethau digidol ac wedi eu paratoi ar gyfer heriau'r dyfodol.
- Bwrdeistref sirol sy'n dod yn fwy gwydn wrth gynllunio ar gyfer effeithiau newid hinsawdd.
- Bydd ein Cynllun Datgarboneiddio yn cael ei gyflwyno a bydd yn sicrhau bod y cyngor a'r fwrdeistref sirol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i les amgylcheddol a byd-eang.
- Bwrdeistref sirol glan gyda llai o sbwriel a thipio anghyfreithlon.
- Bydd cyflwr ein ffyrdd yn gwella.
- Fflyd fodern a chyfrifol yn amgylcheddol sy'n ein gosod fel arweinwyr mewn cerbydau allyriadau carbon isel.
- Amlder casglu gwastraff sy'n hyrwyddo casgliad gwastraff mwy effeithlon ac effeithiol gan ddefnyddio fflyd fodern gyda thechnolegau yn y cab.
- Aelwydydd yn rhan o'n hamcanion ailgylchu a lleihau gwastraff gan sicrhau ein bod ar y trywydd iawn o ran cyrraedd ein targedau ailgylchu statudol 2025.

Nodau Lles Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru gyfartal
- Cymru lewyrchus
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

DRAFT

Hyrwyddo iechyd a lles

Mae iechyd da (corfforol ac iechyd meddwl) a lles yn un o'r pethau pwysicaf y gall unigolyn ei gael ac mae'n effeithio ar gymaint o rannau eraill o'u bywyd. Felly mae cefnogi a galluogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i fod yn gryf ac i gael iechyd corfforol ac iechyd a lles meddyliol da yn hanfodol.

Mae canolbwyntio ar wasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan yn helpu i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r gefnogaeth gywir gynted â phosibl a hefyd yn lleihau'r galw ar wasanaethau mwy costus yn nes ymlaen, gan sicrhau eu bod yn cael eu diogelu i'r sawl sydd eu hangen.

Mae blaenoriaethu gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn hanfodol i sicrhau ein bod yn cynnal ein taith tuag at welliant, gyda golwg ar ddarparu'r lefel gywir o ofal a chefnogaeth, lle mae pob plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn ddiogel ac yn cael y cyfle i gyrraedd eu potensial.

Mae hybu iechyd a lles da yn cyfrannu'n gadarn at dair o'r amcanion lles; Cymru iachach sy'n gymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl ar ei orau gyda dewisiadau ac ymddygiad o fudd i iechyd yn y dyfodol; Cymru mwy cyfartal sy'n gymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo eu cefndir neu amgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol); Cymru cadarn lle mae ein gweithlu a'n gwasanaethau yn gallu diwallu anghenion pobl a Chymru gyda chymunedau cydlynus sy'n ddeniadol, hyfyw, diogel ac wedi eu cysylltu'n dda.

Ein canolbwynt ar gyfer 2020-23

- Cyflawni gwelliannau ym maes gofal cymdeithasol plant er mwyn gwireddu'r weledigaeth uchod trwy gyflwyno cynllun gweithredu'r Bwrdd Gwella Carlam
- Cyflawni gostyngiad yn nifer y plant dan ofal trwy ganolbwyntio ar wasanaethau atal a chymorth cynnar gan wneud y mwyaf o adnoddau cymunedol a'u cysylltiadau gyda'r trydydd sector
- Cynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol trwy wella'r broses recriwtio a chadw ac ailfodelu'r gwasanaeth mabwysiadau rhanbarthol gan ddefnyddio rhagor o fuddsoddiad gan y 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Gwella capasiti gofal cartref trwy gynyddu gwasanaeth mewnol y cyngor a rhannu'r farchnad, tra hefyd yn cydweithio i gefnogi gwell recriwtio a chadw staff ar draws y sector
- Adnabod, adolygu a gwella gweithgareddau presennol y cyngor mewn cysylltiad â gwasanaethau ataliaeth a chymorth cynnar iechyd a lles da.
- Gweithio gyda phartneriaid i drawsnewid gwasanaethau cymunedol i gyflawni'r nod o 'Gymru Iachach' gyda rhagor o bwyslais ar ataliaeth a mynediad di-dor at ofal a chefnogaeth.
- Datblygu hwb lles yng nghanol y dref

Sut mae llwyddiant yn edrych

Bydd plant yn ddiogel – bydd:

- y lefel gywir o ofal a chefnogaeth yn cael eu darparu, ble fo'r holl blant yn teimlo, ac yn ddiogel, ac yn cael y cyfle i gyrraedd eu potensial

DRAFT

- llai o blant sydd angen gofal gan y cyngor
- mwy o ofalwyr maeth mewnol a gwell gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol

Gweithlu iach, medrus, llawn cymhelliant – bydd:

- Mwy o gapasiti gofal cartref
- Lefel uwch o gadw staff

Gwasanaethau yn cefnogi iechyd a lles da i bawb – bydd:

- Gwelliannau mewn gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar traws-gyngor
- Gwasanaethau Cymunedol yn canolbwyntio ar atal
- Mynediad di-dor at ofal a chefnogaeth
- Hwb lles canol y dref

Nodau Lles Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Cymru iachach
- Cymru gydnerth
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru gyfartal

DRAFFT

Sut byddwn yn mesur sut rydym yn gwneud

Er mwyn gwirio ein bod ar y trywydd i gyflawni ein blaenoriaethau a’n hamcanion cydraddoldeb, rydym ni’n mesur pa mor dda rydym ni’n cyflawni bob chwarter, ac rydym ni’n adrodd am y cynnydd yma i Fwrdd Gweithredol y Cyngor, ac i chi, ddwywaith y flwyddyn.

Rhaid i ni hefyd adrodd ar ddangosyddion perfformiad cenedlaethol - mae'r rhain yn bethau y mae Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr eraill yn credu sy'n bwysig ac y dylem adrodd pa mor dda yr ydym yn perfformio arnynt. Mae rhai o'r rhain mewn blaenoriaethau ac mae rhai yn ymdrin â gwaith pwysig arall y cyngor. Rydyn ni'n mesur ac yn adrodd ar y rhain ddwywaith y flwyddyn, a phob mis Awst rydyn ni'n darganfod sut rydyn ni'n cymharu â Chynghorau eraill Cymru.

DRAFFT